Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru
Wales Accord on the Sharing of Personal Information

# WASPI

# Cydweithio, Diwylliant, Dathlu

## Pecyn Cyfarwyddiadau Ymuno ac Agenda

20fed Pen-blwydd WASPI 20th Anniversary

10 Tachwedd 2025

Stadiwm Dinas Caerdydd

Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government

## Cyflwyniad

Croeso i becyn agenda a chyfarwyddiadau ymuno â digwyddiad Pen-blwydd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn 20 Oed. Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi i ddweud popeth sydd angen i chi ei wybod am ein digwyddiad "Cydweithio, Diwylliant, Dathlu" ar 10 Tachwedd.

Mae 2025 yn nodi carreg filltir arwyddocaol: pen-blwydd fframwaith WASPI yn 20 oed. Mae'r achlysur arbennig hwn yn gyfle hollbwysig i ddathlu a myfyrio ar ugain mlynedd o ymdrech ymroddedig a chydweithredol i hyrwyddo rhannu gwybodaeth ac egwyddorion llywodraethu gwybodaeth er budd pobl yng Nghymru.

Mae'r agenda wedi'i datblygu i fod yn ddiddorol ac yn berthnasol i'n holl randdeiliaid, gan gynnwys arweinwyr y diwydiant ym maes diogelu data a llywodraethu gwybodaeth, ac mae areithiau allweddol gan y Comisiynydd Gwybodaeth ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.

Bydd y digwyddiad yn clou gyda gwobrau WASPI 20, sydd â'r bwriad o gydnabod ymroddiad unigolion, timau a mentrau sydd wedi hyrwyddo WASPI a rhannu gwybodaeth dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Gobeithiwn y gallwch ymuno â ni yn y dathliad hwn, gan ein bod hefyd yn edrych ymlaen at yr hyn y gall WASPI ei wneud nesaf i helpu i gryfhau diwylliant rhannu gwybodaeth yng Nghymru, gan greu canlyniadau gwell i bobl Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y digwyddiad, cysylltwch â Gwasanaeth WASPI: waspiservice@wales.nhs.uk

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 2
Lleoliad a dyddiad ........ 3
Paratoi Cynrychiolwyr ........ 3
Gofynion a Hygyrchedd ........ 3
Cyfarwyddiadau ........ 3
Agenda ........ 4
Bywgraffiadau’r Siaradwyr ........ 6
Arddangoswyr ........ 12
Cynllun llawr ........ 17

## Lleoliad a dyddiad

Y lleoliad yw: Ystafelloedd Ricoh - Stadiwm Dinas Caerdydd, Heol Lecwydd, Caerdydd, 8AZ 8AZ.

Bydd modd cofrestru a chael coffi o 9.00am a bydd y digwyddiad yn dechrau am 9.30am.

**Noder bod mynediad i gynrychiolwyr trwy'r brif fynedfa.**

## Paratoi Cynrychiolwyr

Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar bwysigrwydd rhannu gwybodaeth ar y cyd, gan fyfyrio ar yr effaith nodedig y mae fframwaith WASPI wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau a chydweithio ledled Cymru ac edrych ymlaen at ddatblygiad parhaus WASPI.

Bydd dod i'r digwyddiad hwn yn rhoi cyfle i chi glywed gan arbenigwyr blaenllaw ym maes diogelu data, siarad â chydweithwyr a rhanddeiliaid ar rannu gwybodaeth a dysgu rhagor am fframwaith WASPI a'r effaith y mae wedi'i chael ar rannu gwybodaeth yng Nghymru.

Mae Ardal Rwydweithio yn rhoi cyfle i chi siarad â rhanddeiliaid allweddol a fydd yn arddangos, yn ogystal â chymryd rhan mewn rhai stondinau rhyngweithiol a ddarperir gan wasanaeth WASPI.

## Gofynion a Hygyrchedd

Er mwyn bod yn bresennol, cofrestrwch ymlaen llaw drwy'r ffurflen hon. Rhaid i bawb lenwi ffurflen er mwyn gallu dod.

Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl os oes gennych ofynion hygyrchedd, yn enwedig gofynion dietegol neu os oes angen cymorth arnoch gydag unrhyw faterion eraill ynghylch hygyrchedd i'r lleoliad neu gymryd rhan yn y digwyddiad.  Gellir darparu hyn drwy'r ffurflen uchod neu, fel arall, gallwch gysylltu â ni yn waspiservice@wales.nhs.uk

Noder, tynnir ffotograffau yn y digwyddiad hwn at ddibenion hyrwyddo. Mae'n debygol y bydd y ffotograffau a'r recordiadau yn ymddangos ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol. Os byddai'n well gennych beidio â chael eich ffotograff wedi'i dynnu, rhowch wybod i ni. I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â: waspiservice@wales.nhs.uk

## Cyfarwyddiadau

Mae cyfarwyddiadau i'r stadiwm ar gael yma

Mae parcio ar gael ar dir y stadiwm.

## Agenda

| | |
|---|---|
| 09.00 – 09.30 | **Cofrestru, lluniaeth a rhwydweithio** |
| 09.30 – 09.35 | Cyflwyniad a threfn y digwyddiad<br>**Dave Parsons - Gwasanaeth WASPI, Iechyd a Gofal Digidol Cymru** |
| 09.35 – 09.50 | Sylwadau agoriadol<br>**Llywodraeth Cymru – Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio** |
| 09.50 – 10.20 | Prif sesiwn - Rôl Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Cod Ymarfer Rhannu Data<br>**John Edwards, Comisiynydd Gwybodaeth, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** |
| 10-20 – 11.00 | Stori WASPI<br>**Dave Parsons - Gwasanaeth WASPI, Iechyd a Gofal Digidol Cymru** |
| 11.00 – 11.35 | Rhannu Data ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chysylltedd ag Iechyd<br>**Darren Lloyd, Iechyd a Gofal Digidol Cymru** |
| 11.35 – 11.55 | **Egwyl a choffi, rhwydweithio** |
| 11.55 – 12.35 | Diogelu Data fel galluogwr<br>**Ibrahim Hasan – Cyfarwyddwr Act Now** |
| 12.35 – 13.00 | Pwerau rhannu data a Deddf yr Economi Ddigidol<br>**Anna Bartlett-Avery – Llywodraeth Cymru** |
| 13.00 – 14.00 | **Cinio a rhwydweithio** |
| 14.00 – 14.30 | "A oes angen cydsyniad arnaf?"<br>**Helen Thomas, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** |
| 14.30 – 15.00 | Datgloi rhwystrau i rannu data, Diwylliant a Chydweithio<br>**Adam Horton-Tuckett - Uned Cymorth Comisiynu De, Canolbarth a Gorllewin y GIG** |
| 15.00 – 15.25 | WASPI – Beth sy Nesaf<br>**Gwasanaeth WASPI – Iechyd a Gofal Digidol Cymru** |
| 15.25 – 15.50 | WASPI a'r Porth Rhannu Gwybodaeth<br>**Gwasanaeth WASPI – Iechyd a Gofal Digidol Cymru**<br>**Mark Russell, Heddlu De Cymru**<br>**Wayne Pritchard, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi** |

| | |
|---|---|
| 15.50 – 16.10 | **Egwyl a Rhwydweithio** |
| 16:10 – 17:00 | **Gwobrau WASPI - Dathlu Dau Ddegawd o Gydweithredu Rhagorol** |
| 17.00 – 17.10 | Sylwadau i gloi<br>**Dave Parsons - Gwasanaeth WASPI, Iechyd a Gofal Digidol Cymru** |

## Bywgraffiadau'r Siaradwyr



**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Etholwyd Rebecca Evans i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf ym mis Mai 2011 i gynrychioli rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn 2016 daeth yn Aelod Cynulliad dros Gŵyr.

Cafodd Rebecca radd mewn Hanes o Brifysgol Leeds, a gradd Meistr mewn Athroniaeth mewn Astudiaethau Hanesyddol o Goleg Sidney Sussex, Prifysgol Caergrawnt. Cyn cael ei hethol, roedd Rebecca yn gweithio yn y trydydd sector.

Ym mis Mehefin 2014, penodwyd Rebecca yn Ddirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, ac ym mis Mai 2016 daeth yn Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd. Ym mis Tachwedd 2017, cafodd ei phenodi'n Weinidog Tai ac Adfywio, ac ym mis Rhagfyr 2018 ymunodd â'r Cabinet fel Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Ar 13 Mai 2021 penodwyd Rebecca yn Weinidog Cyllid a Llywodraeth Leol. Ar 21 Mawrth 2024, penodwyd Rebecca yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet.

Penodwyd Rebecca yn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar 11 Medi 2024.



**John Edwards**
Comisiynydd Gwybodaeth
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Ers mis Ionawr 2022, mae John Edwards wedi gwasanaethu fel chweched Comisiynydd Gwybodaeth y DU. Cyn hyn, bu'n gwasanaethu fel Comisiynydd Preifatrwydd Seland Newydd am wyth mlynedd, gan feithrin enw da yn rhyngwladol ym maes diogelu data a phreifatrwydd, gan gynnwys cadeirio yr hyn a elwir bellach yn Gynulliad Preifatrwydd Byd-eang. Bu hefyd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau gan gynnwys cynghorydd polisi i Lywodraeth Seland Newydd, bu'n gyfreithiwr am dros 20 mlynedd yn y sector cyhoeddus a phreifat, a bu hyd yn oed yn gweithio fel mynyddwr.

Gweledigaeth a chenhadaeth John yw i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fod yn rheoleiddiwr sy'n grymuso pobl i rannu gwybodaeth er budd personol a chyhoeddus, ac i sefydliadau ddefnyddio gwybodaeth i fuddsoddi ac arloesi yn yr economi ddigidol yn ddiogel.

Fel rheoleiddiwr economi gyfan, canolbwyntiodd John ar gyflawni ymyriadau rheoleiddio gwell, cyflymach ac effeithiol mewn deallusrwydd artiffisial a biometreg, preifatrwydd plant ac AdTech ac olrhain ar-lein.

Arwyddair John: "*Rydym yn gwario unwaith yn y ganolfan gan arwain at arbedion i filoedd o fusnesau ar draws yr economi.*"



**Darren Lloyd**
Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Darren Lloyd yw Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a’r Swyddog Diogelu Data a gydnabyddir yn ffurfiol ar gyfer y sefydliad.

Mae Darren wedi gweithio’n helaeth i wasanaethau gweinyddol canolog GIG Cymru am dros 35 o flynyddoedd.

Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae wedi gweithio’n fwy penodol ym meysydd cydymffurfiaeth Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth.



**Dave Parsons**
Rheolwr Cod WASPI
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Dave Parsons yw Rheolwr Cod Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb dros ddatblygiad strategol a chyflawni gweithredol fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn ogystal â rhoi cyngor a chymorth i brosiectau a rhaglenni Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Chymru gyfan ac i randdeiliaid eraill yn y sector iechyd yng Nghymru.

Mae Dave wedi gweithio’n helaeth o fewn gwasanaethau cyhoeddus ers dros 20 mlynedd ac mae wedi gweithio’n fwy penodol ym meysydd Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth am y 20 mlynedd diwethaf.



**Helen Thomas**
Uwch Swyddog Polisi
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Ymunodd Helen â thîm Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yng Nghaerdydd ym mis Ionawr 2013, lle mae ei phrif feysydd o ddiddordeb yn cynnwys iechyd, addysg a llywodraeth ganolog.

Cyn hynny bu Helen yn was sifil am 17 mlynedd yn San Steffan a Llywodraeth Cymru, gan weithio’n bennaf ym maes iechyd a datblygu cynaliadwy.



**Anna Bartlett-Avery**
Pennaeth Moeseg Data a Rhannu Data
Llywodraeth Cymru

Anna yw Pennaeth Moeseg Data a Rhannu Data Llywodraeth Cymru, ac mae'n gyfrifol am annog a gwella rhannu data ar draws y sector cyhoeddus a Bwrdd Adolygu Rhannu Data Deddf yr Economi Ddigidol ar gyfer Cymru.

Mae gan Anna brofiad helaeth o rannu data yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys cefnogi'r ymateb i bandemig Covid-19 ac yn fwy diweddar ymateb Cymru, Cenedl Noddfa i'r rhyfel yn yr Wcráin.



**Ibrahim Hasan**
Cyfarwyddwr Act Now

Mae Ibrahim Hasan yn gyfreithiwr ac yn gyfarwyddwr Act Now Training, sef un o gwmnïau ymgynghori cyfraith gwybodaeth blaenllaw'r DU. Mae ei gleientiaid yn cynnwys awdurdodau lleol, elusennau, ysgolion a'r sector addysg ehangach.

Mae cyhoeddiadau Ibrahim yn cynnwys Llawlyfr GDPR Act Now, sydd bellach yn ei ail argraffiad, a'i erthyglau sydd wedi'u cyhoeddi yn y Law Society Gazette a'r Solicitors Journal. Mae'n ddarlithydd gwadd ar y radd LLM mewn Technoleg Gyfreithiol ym Mhrifysgol Middlesex Dubai ac mae wedi cael ei gyfweld ar y BBC fel arbenigwr ar gyfraith gwybodaeth.



**Adam Horton-Tuckett**
Uned Cymorth Comisiynu De, Canolbarth a Gorllewin y GIG

Mae gan Adam, sydd â dros 20 mlynedd o brofiad mewn Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelu Data, gyfoeth o wybodaeth gan gynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwybodaeth, safonau diogelwch gwybodaeth, rheoliadau a chanllawiau'r GIG.

Mae Adam yn arbennig o fedrus wrth alluogi staff ar bob lefel i ddeall a dilyn gofynion llywodraethu gwybodaeth a nodi a gweithredu datrysiadau i heriau cymhleth IG.

Mae Adam yn ymarferydd cymwys yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae ganddo dystysgrifau Archwilydd Arweiniol Diogelwch Gwybodaeth a Sefydliad AI.



**Wayne Pritchard**
Arweinydd Diogelwch a Sicrwydd Gwybodaeth Rhanbarthol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF Cymru (asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder)

Mae gyrfa Wayne yn y Gwasanaeth Prawf wedi ymestyn dros bedwar degawd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi dal rolau allweddol ym maes perfformiad a rheoli TG. Am y 15 mlynedd diwethaf, mae wedi canolbwyntio ar sicrwydd gwybodaeth, gan ddod ag arbenigedd dwfn a syniadau strategol i'r maes. Fel yr arweinydd rhanbarthol, mae Wayne yn chwarae rhan hanfodol wrth gysoni strategaeth diogelwch a diogelu data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ag amcanion sefydliadol - gan sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol a meithrin diwylliant diogelwch cadarn o wydnwch ac ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth.

Ar ôl mynd i gyfarfod cyntaf WASPI yn ôl yn 2005, mae Wayne wedi bod yn eiriolwr cryf dros rannu gwybodaeth, gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol a'r sector cyhoeddus.



**Mark Russell**
Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth
Heddlu De Cymru

Mae rôl Mark, sydd â bron i 30 mlynedd o brofiad o weithio mewn amgylchedd heddlu prysur, yn un hanfodol wrth sicrhau bod Heddlu De Cymru yn cynnal safon uchel o gydymffurfiaeth data.  Yn aelod o Grŵp Llywio Rhannu Data Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, mae'n helpu i lunio protocolau cenedlaethol a lleol a feithrinodd ymddiriedaeth ac atebolrwydd rhwng yr heddlu ac asiantaethau partner.

Fel Cadeirydd Bwrdd Sicrhau Ansawdd WASPI De Cymru, mae Mark wedi ymrwymo i hyrwyddo rhannu gwybodaeth gyfreithlon, moesegol ac effeithiol ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.  Mae'n hyrwyddo fframwaith WASPI fel sylfaen ar gyfer gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau, diogelu, a galluogi canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau trwy weithio ar y cyd.



**Marcus Sandberg**
Rheolwr Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth (WASPI)
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Marcus yn Rheolwr Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth ac mae wedi gweithio o fewn tîm Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ers dros 7 mlynedd. Mae wedi goruchwylio’r adolygiad mawr o’r fframwaith yn 2018 yn dilyn y newidiadau i ddeddfwriaeth diogelu data, yr adolygiad o’r fframwaith i adlewyrchu’r newidiadau i God Ymarfer Rhannu Data Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, a datblygiad y Cod Ymddygiad.

Yn ogystal â’i gyfrifoldeb am ddatblygu, hyrwyddo a gwella’r fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn barhaus, mae Marcus yn rheoli swyddogaethau Llywodraethu Gwybodaeth IGDC a Chymru Gyfan fel aelod o dîm Llywodraethu Gwybodaeth IGDC.



**Huw Pierce Pritchard**
Rheolwr Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth (WASPI)
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Huw wedi gweithio mewn amrywiaeth o sefydliadau sector cyhoeddus ar draws y DU mewn rolau arwain Llywodraethu Gwybodaeth. Ymunodd ag IGDC o lywodraeth leol, lle’r oedd yn Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth ac yn Swyddog Diogelu Data.

Ar hyn o bryd, mae Huw yn gweithio ar ddatblygu fframwaith WASPI ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.



**Ben Tuckett**
Swyddog Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth (WASPI)
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Ben yn cefnogi grwpiau Sicrhau Ansawdd WASPI rhanbarthol ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer materion WASPI o ddydd i ddydd.

Mae Ben hefyd yn helpu i gynnal gwefan WASPI ac yn darparu cymorth Llywodraethu Gwybodaeth cyffredinol i IGDC.



**Francess Iyere**
Swyddog Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Francess yn Swyddog Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ac yn gyfrifol am gefnogi gweithgareddau bob dydd y Tîm Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth yn IGDC.

Mae Francess hefyd yn darparu cymorth i Grŵp Cynghori Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru, sef grŵp gwybodaeth sefydliadau iechyd.



**Hannah James**
Swyddog Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth
Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Hannah yn Swyddog Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth sy'n gweithio'n bennaf i gefnogi datblygiad a gweithrediad y Porth Rhannu Gwybodaeth (ISG) yn IGDC.

Mae Hannah yn rheoli tasgau prosiect ar gyfer y Porth Rhannu Gwybodaeth megis datblygu dogfennau cynllunio, cysylltu â datblygwyr, a chydlynu cyfarfodydd, ochr yn ochr â chynorthwyo gydag ymholiadau a thasgau llywodraethu gwybodaeth sy’n ymwneud â gweithredu mwy cyffredinol.

## Arddangoswyr

Bydd yr ardal rwydweithio yn cynnwys nifer o stondinau i chi ymweld â nhw yn ystod yr egwyliau rhwydweithio drwy gydol y dydd:

**Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)**

https://www.waspi.llyw.cymru/

Lansiwyd WASPI ugain mlynedd yn ôl i hwyluso rhannu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn gyfreithlon ymhlith gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddu a llesiant cymdeithasol pobl yng Nghymru.

Ers hynny, mae fframwaith WASPI wedi bod yn allweddol wrth chwalu rhwystrau a meithrin diwylliant o gydweithio ac ymddiriedaeth, ac mae dros 800 o sefydliadau wedi cofrestru ar gyfer WASPI a bron i 400 o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ar waith.

Bydd stondinau WASPI rhyngweithiol i chi ymgysylltu â nhw a chael cipolwg gwerthfawr ar y fframwaith a'i effaith ar rannu gwybodaeth yng Nghymru.

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)**

ico.org.uk

Fel rheoleiddiwr y DU ar gyfer diogelu data a deddfwriaeth gysylltiedig, mae'r ICO yn falch o gefnogi Pen-blwydd WASPI yn 20 Oed.

Wrth i'r sector cyhoeddus archwilio fwyfwy'r manteision y gall digideiddio, deallusrwydd artiffisial a dadansoddeg data eu cynnig i ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, y ffaith syml yw bod diogelu data yn parhau i fod yr un mor ganolog i lwyddiant mentrau sy'n defnyddio gwybodaeth bersonol ag yr oedd 20 mlynedd yn ôl pan ddechreuodd WASPI.

Mae WASPI a'r ICO wedi esblygu'n sylweddol drwy gydol y cyfnod hwnnw i adlewyrchu deddfwriaeth sy'n newid a datblygiadau technolegol ac maent yn parhau i fod yn gynghreiriaid wrth hyrwyddo arferion da.

Am ragor o wybodaeth am rôl yr ICO ledled y DU, ynghyd â mynediad at ein canllawiau manwl ar yr ystod lawn o ddeddfwriaeth rydym yn ei rheoleiddio, gweler ein gwefan yn ico.org.uk

**Y Porth Rhannu Gwybodaeth (ISG)**

www.informationsharing gateway.org.uk

Mae'r Porth Rhannu Gwybodaeth (ISG) yn blatfform digidol dibynadwy sy'n helpu sefydliadau i greu, cymeradwyo a rheoli trefniadau rhannu gwybodaeth yn hyderus. Wedi'i gynllunio i symleiddio llywodraethu a sicrhau cydymffurfiaeth, mae'r ISG yn darparu lle diogel a hawdd ei ddefnyddio ar gyfer rheoli cytundebau rhannu data, asesiadau effaith diogelu data (DPIA) ac asedau gwybodaeth trwy'r gofrestr asedau gwybodaeth (IAR).

Mewn partneriaeth ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mae templed rhannu data ISG wedi'i addasu i gyd-fynd â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) gan roi datrysiad sy'n cydymffurfio â'r fframwaith i sefydliadau WASPI sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion.

Mae ein datblygiadau wedi'u sbarduno gan y gymuned, gyda chydweithrediadau diweddar fel y Gofrestr Asedau Gwybodaeth (IAR), llifau gwaith cymeradwyo gwell a chynlluniau moderneiddio'r ISG i gyd yn cael eu llunio gan adborth defnyddwyr. Mae hyn yn sicrhau bod y platfform yn parhau i esblygu ochr yn ochr â'r heriau byd go iawn y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu.

Gyda chynllun clir ar gyfer arloesi, mae'r ISG yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddarparu'r ateb digidol gorau ar gyfer prosesau rhannu gwybodaeth diogel, cydweithredol, a pharod ar gyfer y dyfodol.

ISG – Symleiddio Rhannu

**Act Now Training**

www.actnow.org.uk

Act Now Training yw prif ddarparwr hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth Ewrop sy'n gwasanaethu sefydliadau llywodraeth, awdurdodau lleol, corfforaethau rhyngwladol, sefydliadau ariannol a chwmnïau cyfreithiol corfforaethol.

Mae gan ein partneriaid ddegawdau o brofiad ym maes llywodraethu gwybodaeth. Rydym yn ymfalchïo mewn darparu hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n ymarferol ac yn gwneud yr hyn sy’n gymhleth yn syml.

Mae ein rhaglen helaeth yn amrywio o weminarau byr a gweithdai undydd i gyrsiau tystysgrif ymarferydd lefel uwch a gyflwynir ar-lein neu yn yr ystafell ddosbarth.

**Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion (IRMS)**




www.irmsconference.org.uk

Ymunwch â ni ar gyfer Cynhadledd IRMS 2026 – y digwyddiad mwyaf blaenllaw i weithwyr proffesiynol gwybodaeth – a gynhelir o 17–19 Mai yng Ngwesty’r Celtic Manor.

Gan ddenu dros 400 o gynrychiolwyr o bob sector ac ar draws y DU a thu hwnt, mae'r digwyddiad na ellir ei golli hwn yn dod â rheolwyr cofnodion, arweinwyr llywodraethu data, arbenigwyr cydymffurfedd, a mwy ynghyd i archwilio dyfodol rheoli gwybodaeth.

Ein thema ar gyfer 2026, Y Casgliad Celtaidd: Curadu’r Gorffennol, Llywio’r Dyfodol, yn gwahodd cynrychiolwyr i fyfyrio ar werth parhaol treftadaeth wrth gofleidio arloesedd. Drwy gymysgedd pwerus o siaradwyr gwadd, gweithdai ymarferol, ac astudiaethau achos o'r byd go iawn, bydd y gynhadledd yn mynd i'r afael â heriau mwyaf dybryd heddiw o ran stiwardiaeth data, llywodraethu moesegol, a thrawsnewid digidol. P'un a ydych chi'n newydd i'r maes neu'n weithiwr proffesiynol profiadol, mae Cynhadledd yr IRMS yn cynnig ysbrydoliaeth, offer ymarferol, a rhwydweithio gwerthfawr mewn amgylchedd deinamig a chefnogol. Peidiwch â cholli'ch cyfle i fod yn rhan o'r sgwrs sy'n llunio dyfodol ein gwybodaeth.

**Cybata**

[www.cybata.co.uk](http://www.cybata.co.uk)

[cybata.co.uk/whatwouldyoudo](https://cybata.co.uk/whatwouldyoudo)

Mae Cybata yn gwmni ymgynghori diogelu data sydd wedi'i leoli yng Nghymru. Rydym yn cefnogi sefydliadau i gynyddu eu hadnoddau mewnol neu gyflenwi arbenigedd nad yw ar gael yn fewnol. Mae cynnal sgyrsiau a dysgu am AI mewn ffordd sy'n ddiddorolddorol ac yn ysbrydoli, wedi bod yn anodd i sefydliadau ers amser maith. Mae ein gêm AI, Data a Seiber, Beth Fyddech Chi'n Ei Wneud? yn creu'r amodau i newid y sefyllfa hon.

Mae'r gêm hon yn chwalu rhwystrau, yn codi llythrennedd digidol ac yn gwella ymgysylltiad. Mae'n torri i ffwrdd o'r cyfyngiadau sy'n gynhenid â dulliau traddodiadol ac e-ddysgu.




Mae'r gêm yn helpu;

- Integreiddio AI, data a seiber i bob sgwrs a phenderfyniad busnes
- Swyddogion Diogelu Data I gefnogi gyda heriau cydymffurfio
- Codi llythrennedd digidol staff ar bob lefel gan gynnwys pwyllgorau Risg ac Archwilio, Timau Arweinyddiaeth Uwch ac mewn adrannau
- Hyrwyddwyr data yn ymgysylltu â'u timau mewn modd anffurfiol ond ysbrydoledig
- Gwella'r ddealltwriaeth o ddata a risg rhannu data

Yn y digwyddiad byddwch yn gallu chwarae fersiwn fer o'r gêm a dysgu am y fersiwn ar-lein

**Blake Morgan**

https://www.blakemorgan.co.uk/

Mae Blake Morgan yn gwmni cyfreithiol gwasanaeth llawn sydd ag arbenigedd mewn cyfraith llywodraeth a diogelu data, gan weithio gyda chleientiaid yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae ein cyfreithwyr profiadol yn darparu cyngor arbenigol i sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled y DU ar bob agwedd ar ddiogelu data, cyfraith preifatrwydd, llywodraethu gwybodaeth, a rhyddid gwybodaeth. Rydym yn falch o weithredu ar ran ystod eang o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru, GIG Lloegr, GIG Cymru, DHCW, Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru, prifysgolion, sefydliadau addysg uwch, a nifer o awdurdodau lleol.

Rydym yn darparu cyngor prydlon, manwl gywir ac ymarferol, gan dynnu ar ein dealltwriaeth ddofn o faterion cyfreithiol o fewn a thu allan i'r sector cyhoeddus. Mae ein dull cydweithredol yn sicrhau atebion wedi'u teilwra sy'n diwallu anghenion cyfreithiol penodol ein cleientiaid.

Hefyd, ni yw'r unig gwmni cyfreithiol yn y DU sydd wedi'i achredu gan Gymdeithas Gyfrifiadurol Prydain i ddarparu hyfforddiant sy'n arwain at y Dystysgrif Ymarferydd BCS nodedig mewn Diogelu Data.


## Cynllun llawr

Darperir y cynllun llawr isod i helpu'r rhai fydd yn bresennol i ddod o hyd i'r mannau allweddol yn y digwyddiad.

Mae hyn yn cynnwys ystafell ar wahân ar gyfer storio a bagiau.

Mae mynediad i gynrychiolwyr drwy'r brif fynedfa, a dilynwch yr arwyddion i Lefel 3 - Ystafell Ricoh. Bydd aelod o staff wrth law os bydd angen cyfarwyddiadau arnoch. Gellir cyrraedd Lefel 3 drwy lifft neu’r grisiau.

Ewch i'r ardal gofrestru wrth gyrraedd Lefel 3 i gael eich bathodyn enw.




**Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r digwyddiad, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu ar 10 Tachwedd.**